

2016 Rhif 6

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Declynnau Optegol) 2016

Gwnaed

31 Mawrth 2016

Yn dod i rym

1 Ebrill 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 128 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006⁽¹⁾ a rheoliad 2(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997⁽²⁾, yn gwneud y Cyfarwyddydau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Declynnau Optegol) 2016, a deuant i rym ar 1 Ebrill 2016.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn yn gymwys mewn cysylltiad â chyflenwi sbectolau neu lensys cyffwrdd gan Fwrdd Iechyd Lleol, neu bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo profion golwg sy'n arwain at gyflenwi sbectolau neu lensys, neu brawf cyntaf o'r fath, yn digwydd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2016.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr “cost lawn ffrâm” (“*full cost of a frame*”) yw'r swm sy'n hafal i'r gost i'r Bwrdd Iechyd Lleol, neu bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran, o brynu—

yn achos oedolyn, ffrâm i oedolyn; ac

yn achos plentyn, ffrâm i blentyn;

ystyr “cost weinyddu” (“*dispensing cost*”) yw'r swm sy'n hafal i'r gost i'r Bwrdd Iechyd Lleol, neu bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran, o weinyddu'r lensys;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; ac

ystyr “gwir gost lensys” (“*actual cost of lenses*”) yw'r swm sy'n hafal i'r gost i'r Bwrdd Iechyd Lleol, neu bersonau eraill sy'n gweithredu ar ei ran, o brynu'r lensys.

(1) 2006 p. 42.

(2) O.S. 1997/818.

Uchafswm y ffi am lensys

3. —(1) Mae uchafswm y ffi am lensys yn swm sy'n hafal i—
- a) yn achos lens golwg sengl, £70.00; neu
 - b) yn achos pob lens arall, £113.80,
- a dehonglir “uchafswm y ffi briodol” yn unol â hynny.

Ffi am sbectolau

4. —(1) Penderfynir ar y ffi sy'n daladwy mewn cysylltiad â chyflenwi sbectolau yn unol â'r darpariaethau a ganlyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), pan fo gwir gost y lensys a'r gost weinyddu, gyda'i gilydd, yn llai na swm sy'n hafal i uchafswm y ffi briodol, y ffi sy'n daladwy yw swm sy'n hafal i gyfanswm—

- a) gwir gost y lensys;
- b) y gost weinyddu; ac
- c) cost lawn y ffrâm.

(3) Pan fo gwir gost y lensys a'r gost weinyddu, gyda'i gilydd, yn hafal i uchafswm y ffi briodol neu'n fwy na hynny, y ffi sy'n daladwy yw swm sy'n hafal i gyfanswm—

- a) uchafswm y ffi briodol; a
- b) cost lawn y ffrâm.


(4) Mewn achos pan fo'n glinigol angenrheidiol cyflenwi ffrâm y mae ei chost yn fwy na chost lawn rataf ffrâm mewn ystod i oedolion neu i blant a gyflenwir gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu gan bersonau eraill sy'n gweithredu ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol, y ffi sy'n daladwy am y ffrâm yw swm y mae rhaid iddo fod yn hafal i gost lawn rataf ffrâm yn yr ystod a gyflenwir.

Ffi am lens gyffwrdd

5. Mae'r ffi a awdurdodir gan adran 128 o'r Ddeddf mewn cysylltiad â chyflenwi lensys cyffwrdd o dan y Ddeddf i fod yn £57.00 am bob lens gyffwrdd a gyflenwir felly.

Dirymu

6. Mae'r Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol 2015(3), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2015, wedi eu dirymu.



Llofnodwyd gan y Dr Grant L. Duncan, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 31 Mawrth 2016